



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2019/2020



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg ac amrywiaeth o fformatau hygyrch ar gais.

Dyfodol  Clinigol
Clinical Futures

Mae ein holl gyhoeddiadau ar gael i'w lawrlwytho ar ein gwefan: bipab.gig.cymru

Cynnwys

Cyflwyniad a Chefndir	1
Myfyrio ar y flwyddyn ddiwethaf:	2
• Amcan Cydraddoldeb 1	3
• Amcan Cydraddoldeb 2	3
• Amcan Cydraddoldeb 3	4
• Amcan Cydraddoldeb 4	5
• Amcan Cydraddoldeb 5	7
• Amcan Cydraddoldeb 6	9
• Amcan Cydraddoldeb 7	12
• Amcan Cydraddoldeb 8	13
Casgliad	14
Diolch a chydabyddiaethau	15
Manylion cyswllt	15

Cyflwyniad a Chefndir

Dyma Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Rhodda drosolwg o waith allweddol mewn perthynas â chyflawni ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2019/2020 a dylid ei ddarllen ar y cyd â chyhoeddiadau perthnasol eraill y Bwrdd Iechyd. Ymhlith y rhain mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, Adroddiad Blynyddol, Datganiad Ansawdd Blynyddol, Asesiad Anghenion y Boblogaeth, Cynllun Tymor Canolig Integredig ac Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd. Gellir dod o hyd i'r adroddiadau hyn drwy ddilyn y ddolen isod:

<https://bipab.gig.cymru/amdanom-ni/dogfennau-allweddol/>

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau gofal iechyd i 639,000 o bobl sy'n byw ym Mlaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen a de Powys. Rydym hefyd mewn partneriaeth sy'n gyfrifol am wella iechyd a llesiant pobl leol.

Mae'r Bwrdd Iechyd Prifysgol yn cyflogi oddeutu 13271 aelod o staff i gyflawni ein gwasanaethau.

Mae ein hamcanion cydraddoldeb yn gysylltiedig â'r 9 'nodwedd warchodedig' yr ymdrinnir â nhw yn y Ddeddf Cydraddoldeb (2010). Mae'r rhain fel a ganlyn: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol.

Ym mis Mawrth 2020, yn dilyn ymgynghoriad ffurfiol a gweithgareddau ymgysylltu cyfredol gyda'r gymuned a wasanaethwn a'n staff, cyhoeddasom Gynllun Cydraddoldeb Strategol ac Amcanion newydd ar gyfer y cyfnod 2020-2024.

Myfyrio ar y flwyddyn ddiwethaf

Gwnaethpwyd cynnydd o ran cyflawni ein hamcanion cydraddoldeb a'r ystod o wybodaeth y gallwn dynnu arni yn gynyddol. Cydnabyddwn mai oherwydd natur ddofn rhai anghydraddoldebau, rhaid parhau i wneud rhagor o gynnydd. Rydym wedi sicrhau bod y meysydd hyn wedi'u trosglwyddo drwy ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2020 - 2024, wedi'u hintegreiddio yn ein IMTP a'n hymateb i'n Hasesiad Anghenion y Boblogaeth.

Tuag at ddiwedd y cyfnod adrodd ym mis Mawrth 2020, allai neb fod wedi rhagweld y byddai lledaeniad y Coronafeirws (COVID-19) ar draws y DU yn dod yn Argyfwng Cenedlaethol heb ei debyg a faint o ymyrraeth a fyddai i ran helaeth o'r gwasanaethau a ddarparwn. Yn fuan daeth ein hardal Bwrdd Iechyd y lleoliad cyntaf a'r gwaethaf ledled Cymru a'r DU i ddioddef. Mae'r pandemig wedi pwysleisio ymhellach anghydraddoldebau sydd eisoes yn bodoli ac wedi ehangu rhai eraill. Mae pobl hŷn, pobl o leiafrifoedd ethnig a rhai pobl anabl, yn arbennig y rheiny mewn cartrefi gofal, wedi'u heffeithio'n anghymesur yn sgil y pandemig. Byddwn yn cadw ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 dan adolygiad i sicrhau mai wrth i fwy o dystiolaeth barhau i ddod i'r amlwg, y bydd ein cynllun gweithredu yn adlewyrchu'r gwaith sydd angen ei wneud i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau.

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn disgrifio ein gwaith tuag at weithredu ein hamcanion cydraddoldeb yn 2019/2020. Mae'n pwysleisio ein cyflawniadau ac yn adnabod meysydd lle mae angen rhagor o waith er mwyn gwneud cynnydd.

Amcan Cydraddoldeb 1: Gweithio mewn partneriaeth i leihau pob trosedd gasineb.

Rydym wedi parhau i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymhlith staff ynghylch sut i adrodd achos o drosedd gasineb a chefnogi cydweithwyr sydd wedi dioddef camdriniaeth/trosedd gasineb. Mae gwaith yn parhau gyda phartneriaid amlasiantaethol i godi ymwybyddiaeth ac ymateb yn gadarnhaol i ddioddefwyr trosedd gasineb.




Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i godi ymwybyddiaeth o 'gaethwasiaeth fodern' ac i weithredu ein cynllun gweithredu mewn perthynas â Chod 'Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi' Llywodraeth Cymru.

Hyrwyddwyd hyfforddiant ac adnoddau ar-lein newydd.

Amcan Cydraddoldeb 2: Gweithio mewn partneriaeth i leihau achosion o gam-drin domestig, trosedd ar sail anrhydedd a cham-drin pobl hŷn

Gan weithio mewn partneriaeth, rydym wedi parhau i weithio gyda Bwrdd Partneriaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) de-ddwyrain Cymru.



Rhodda hyn ffordd o lywodraethu'r bartneriaeth ranbarthol ar gyfer gwasanaethau cysylltiedig. Rydym yn bartneriaid allweddol yn narpariaeth

Strategaeth Ranbarthol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Gwent 2018-2023.

I weithredu'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol ar gyfer - 'Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais

Rhywiol (2015), rydym yn aelodau'r Grŵp Hyfforddi Rhanbarthol ac mae gennym hyfforddwyr achrededig.

Yn ystod y cyfnod adrodd, gwnaethom gynyddu cydymffurfiaeth hyfforddiant Grŵp1 i 79%, cynnydd o 9% ers yr adroddiad diwethaf. Rydym yn parhau i hyrwyddo ein polisi ar gyfer staff sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig, gweithio gyda chydweithwyr yn Adrannau ac undebau masnach i hyrwyddo'r polisi a gofynion yr hyfforddiant. Cynaliasom sioeau teithiol a stondinau hyrwyddol ym mhob digwyddiad a chynhadledd allweddol y Bwrdd Iechyd a chymerasom ran yn yr ymgyrch Rhuban Gwyn.

Amcan Cydraddoldeb 3: Gweithio mewn partneriaeth â gofalwyr i barhau i godi ymwybyddiaeth, darparu gwybodaeth a gwella cefnogaeth ymarferol i ofalwyr.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (SSWBA) wedi cryfhau'n sylweddol y gofynion deddfwriaethol i Fyrddau Iechyd a Llywodraeth Leol i integreiddio gwasanaethau i gefnogi gofalwyr ac mae'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn gyda sefydliadau partner yn rhoi sylfaen bwysig.

Ym mis Ebrill 2018, cadarnhaodd Lywodraeth Cymru y dyraniad



blynyddol o £1miliwn ledled Cymru i gefnogi gofalwyr dan y SS&WBA. Cyfanswm y dyraniad i ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan oedd £191,000 ac roedd £16,609 o hwnnw

wedi'i glust nodi ar gyfer gofalwyr ifanc.

Sefydlwyd Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gwent (RPB) (dan Rhan 9 y SSWBA) ac mae ganddo ddyletswydd i oruchwylio gwaith gweithredu'r Ddeddf, gan gynnwys yr asesiad anghenion

y boblogaeth a chynlluniau ardal dilynol. Gwnaethpwyd cynnydd da yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i weithredu gofynion y SSWBA.



Erbyn hyn, mae'r rhan fwyaf o feddygfeydd ledled Gwent wedi adnabod hyrwyddwr Gofalwyr a gwnaethom gomisiynu Gofalwyr Cymru i gyflwyno hyfforddiant i Hyrwyddwyr Meddyg Teulu. Rôl yr hyrwyddwr yw bod yn bwynt cyswllt, derbyn gwybodaeth ynghylch Gofalwyr a rhannu gwybodaeth a dysg â gweddill y staff. Mae dyletswyddau eraill yn cynnwys cadw ei hysbysfwrdd Gofalwyr yn gyfredol ac atgyfeirio gofalwyr fel sy'n briodol. Roedd gofalwyr ynghlwm â gwaith gofalus cynllunio, cynnwys a darpariaeth hyfforddiant hyrwyddwyr Meddyg Teulu. Cynhaliwyd y digwyddiad hyrwyddwyr Meddyg Teulu cyntaf, dan ofal Gofalwyr Cymru, yng Nghasnewydd

Mae manylion y cynnydd wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad cynnydd blynyddol ar gyfer 2018/19 a gellir ei weld drwy ddilyn y ddolen hon

howis.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/866/Welsh%20Government%20Gwent%20Carers%20Partnership%20Annual%20Report%202018-19.pdf

Amcan Cydraddoldeb 4: Gwella llesiant ac ymgysylltiad ein staff.

Mae gwella iechyd a llesiant ein staff yn parhau i fod yn flaenoriaeth adnabyddedig yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP). Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau ei ddyfarniadau Safon Iechyd Corfforaethol ar lefel Aur a Phlatinwm.



Amcan 5:

Gwella profiad cleifion drwy sicrhau bod gwasanaethau yn sensitif i anghenion pawb ac yn blaenoriaethu ardaloedd lle mae'r dystiolaeth yn dangos bod llai o bobl yn manteisio ar wasanaethau neu lle mae canlyniadau yn waeth.



Mae ein Datganiad Ansawdd Blynyddol, IMTP ac adroddiad y Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd yn rhoi trosolwg cynhwysfawr o'r ystod o waith sydd wedi'i wneud i leihau anghydraddoldebau.

Mae'r holl feysydd cleifion a chyhoeddus yn parhau i weithio tuag at wella'r profiad i'r rheiny sydd â cholled synhwyrdd. Mae'r Archwiliad Safonau Iechyd a Gofal yn parhau i gefnogi hyn.

Mae gan y Bwrdd Iechyd Uned Gwybodaeth Cleifion sy'n hyrwyddo canllawiau hygrychedd i staff sy'n cynhyrchu gwybodaeth i gleifion a'r cyhoedd. Mae Gwybodaeth Cleifion yn parhau i ddiweddarau ei dudalennau Mewnwyd ac yn hysbysebu hyn yn eang i godi ymwybyddiaeth staff o'r gwasanaeth a'r wybodaeth sydd ar gael. Mae hyn yn cynnwys canllawiau i staff ynghylch cynhyrchu gwybodaeth hygrych.

Mae ein Gwasanaeth Llesiant 'Byw'n Iach, Byw'n Hirach' yn targedu anghydraddoldebau drwy weithio mewn partneriaeth â meddygfeydd i atal Clefyd Cardiofasgwlaidd (CVD), Strôc a Diabetes. Rydym yn cynnal asesiadau risg gwiriad iechyd i bennu'r risg o ddatblygu'r afiechydon hyn dros y ddeng mlynedd nesaf. Os canfyddir bod risg unigolyn yn uwch, bydd Ymgynghorydd Llesiant personol yn gweithio gyda'r claf am hyd at 6 mis i'w gynorthwyo i fynd i'r afael â'i nodau dewisol. Hyd yn oed os yw'r risg yn isel, rhoddir cefnogaeth iddo i fabwysiadu ffordd o fyw iachach. Mae hyn yn cynnwys:

- Taldra a phwysau ar gyfer BMI ynghyd â mesur gwasg
- Sampl gwaed ar gyfer lefelau colesterol
- Gwirio pwysau gwaed a charbon monocsid
- Cwestiynau a chynghor ynghylch ysmegu, ymarfer corff, alcohol a hanes teulu
- Adroddiad o'r holl ganlyniadau a lefel risg
- Cynghor a gosod nodau cyraeddadwy i gynorthwyo i leihau risg
- Cyfeirio ac atgyfeirio at grwpiau cymorth a chefnogaeth a Gwasanaethau eraill y GIG
- Os yw'r risg yn uwch, bydd gwasanaeth cefnogi teilwredig ac Ymgynghorydd Llesiant personol yn gweithio gyda'r claf i osod nodau cyraeddadwy dros 6 mis.

Mae llai o brofion Covid-19 o fewn cymunedau lleiafrifoedd ethnig wedi gweld ystod o fentrau gweithredu cadarnhaol i sicrhau mynediad teg. Roedd hyn yn cynnwys creu cyfleuster

'galw heibio' yn y ganolfan profi torfol, gohebiaeth deilwredig a defnyddio pobl ddylanwadol yn y gymuned i roi'r gair ar led. Mae hwn yn fodel yr ydym wedi parhau i'w ddefnyddio ers cyhoeddi brechlyn Covid-19.

Tuag at ddiwedd y cyfnod adrodd, ar ddechrau'r Pandemig, o bersbectif staff cydnabuo y risg anghymesur sy'n wynebu rhai grwpiau o staff, megis staff lleiafrifoedd ethnig, staff beichiog, staff hŷn a'r rheiny gyda chyflyrau sylfaenol. Gwnaethom gyflwyno adnodd asesu risg yn seiliedig ar dystiolaeth i ddiogelu staff yn y gweithle a ddaeth yn sylfaen ar gyfer yr adnodd Cymru gyfan a gafodd ei datblygu ymhellach wrth i dystiolaeth newydd ddod i'r amlwg. Yn sicr, bu i hynny leihau risg ac arbed bywydau.

Amcan 6: Gwella mynediad, profiad a chanlyniadau'r rheiny sydd angen gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu.

Mae gweledigaeth y Bwrdd Iechyd ar gyfer iechyd meddwl yn seiliedig ar y strategaeth genedlaethol Law yn Llaw at Iechyd Meddwl; Cynlluniau Gwella Gyda'n Gilydd at Wasanaeth Plant a Phobl Ifanc; Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010; strategaethau integredig lleol a ddatblygwyd mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol; a hybwyr deddfwriaeth a pholisi statudol eraill. Yn seiliedig ar y strategaethau a'r cynlluniau hyn, mae ein dull gweithredu yn canolbwyntio ar yr egwyddorion allweddol canlynol:

- Pwyslais ar greu diwylliant ac amgylchedd sy'n ddiogel, therapiwtig, parchus, sy'n eich grymuso. Mae hyn yn cynnwys sylfaen o arweinyddiaeth Ysbrydoledig a gweithlu digonol, cymwys, wedi'u hyfforddi'n dda.
- Gweledigaeth o wasanaethau wedi'u hintegreiddio, yn seiliedig ar dystiolaeth

ac o ansawdd uchel; gwasanaethau sy'n cynnig gwybodaeth hygyrch a fydd yn caniatáu i ddefnyddwyr gwasanaeth gael gobaith ac optimistiaeth ynghylch eu dyfodol a'u hadferiad, ac a fydd yn eu grymuso i ddatblygu eu gofal mewn partneriaeth â'r rheiny sy'n darparu gofal neu'n cynnig cefnogaeth.

- Pwyslais ar weithio tuag at adferiad a hyrwyddo annibyniaeth pryd bynnag sy'n bosibl, drwy ddarparu'r wybodaeth a'r gefnogaeth sydd ei hangen i gynnal a gwella iechyd meddwl a hunan-reoli problemau iechyd meddwl.
- Sicrhau bod pobl yn cael eu trin a'u cefnogi mewn amgylcheddau a gwasanaethau sy'n mynd i'r afael â stigma a gwahaniaethu.
- Datblygu gwasanaethau mewn partneriaeth â'r bobl sy'n eu defnyddio, gan gynnwys dylunio a gwerthuso gwasanaethau o'r fath.
- Sicrhau bod yr amgylchedd ffisegol yn cynnig cyfleusterau un rhyw, fel arfer mewn ystafelloedd sengl; ardaloedd cyffredin diogel o ran rhywedd; ardaloedd i deuluoedd; preifatrwydd a diogelwch; ac urddas i blant a phobl ifanc.

Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu- 5 ffordd o weithio



Cyflawniadau Allweddol Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu 2019/20 a'r camau nesaf

Adnabuwyd 5 blaenoriaeth trawsnewid sylweddol yn IMTP 2019/20 y Bwrdd Iechyd. Amlinellir crynodeb o'u cyflawniadau allweddol isod ynghyd â chrynodeb o'r camau nesaf ar gyfer y blaenoriaethau hyn yn y cam cynllunio nesaf 2020/23

Datrys Argyfwng 	Dechreuodd beilot yn para 12 mis o fodel newydd ar gyfer Timau Triniaeth yn y Cartref i Ddatrys Argyfwng i gleifion mewnol (CRFTT) ym mis Hydref 2019 gyda'r bwriad o adnabod opsiwn dewisol a'i weithredu erbyn haf 2020. Cwblhawyd ymgynghoriad staff a chytunwyd ar oriau gwaith newydd a fydd yn cefnogi model gofal y dyfodol a dyrannwyd staff newydd i gyflawni'r model CRHTT newydd ym mis Rhagfyr 2019. Mae un safle (Ysbyty Sant Cadog) wedi'i adnabod ar gyfer Asesu Argyfwng y tu hwnt i oriau i wella mynediad at wasanaethau cynaliadwy bob awr o'r dydd. Mae achos busnes yn cael ei ddatblygu yn dilyn gwerthusiad rhanddeiliaid o opsiynau i ail-ddylunio gwasanaeth i gleifion mewnol ac unwaith y caiff ei gymeradwyo, bydd ymgysylltiad ac ymgynghoriad staff yn cael eu cynnal ddechrau 2020-21.
Gwasanaeth Noddfa 	Mae gwaith datblygu a phrofi Gwasanaeth Noddfa yn cael ei arwain gan bartneriaid y trydydd sector 'Growing Space' sydd wedi gweithio gyda'r sector iechyd, gofal cymdeithasol, yr heddlu a'r trydydd sector i ddiffinio'r model sydd ei angen ar Went. Mae'r gwasanaeth hwn wedi'i anelu at bobl sydd mewn argyfwng iechyd meddwl cynnar neu hunan-ddiffiniedig, yn darparu cyfleuster dydd sy'n cynnig lle diogel i bobl fynd i siarad ag eraill sydd wedi cael profiad cyffelyb a lle mae adnoddau hunangymorth ar gael i gynorthwyo pobl i reoli achosion eu trallod a phryder. Mae cynnig Cam 1 'mynegiant o ddiddordeb' i ariannu gwasanaeth noddfa wedi'i gyflwyno i'r gronfa 'Pobl a Lleoedd' y Loteri Fawr ac ar ôl cael ei gymeradwyo, mae bellach yn mynd ymlaen i Gam 2.
Adolygiad y Gwasanaeth Anableddau Dysgu 	Cwblhawyd Adolygiad y Gwasanaeth Anableddau Dysgu, ac mae effaith yr argymhellion ar bobl sydd wedi'u heffeithio gan y newid yn cael eu gwerthuso. Un o'r canlyniadau uniongyrchol yw'r model gwasanaeth newydd arfaethedig yn seiliedig ar dri thîm 'hyblyg' (gweithlu hynod fedrus wedi'i gefnogi'n dda) ar draws Gwent i ymateb yn hyblyg ac effeithiol i argyfwng ac ymgysylltu'n gynnar yn y trawsnewidiad. Mae achos busnes yn cael ei ddatblygu i wneud cynnydd ar y modiwl sy'n canolbwyntio ar asesiad iechyd arbenigol, ymyriadau a chynghor arbenigol gyda phrofiadau gwell i ddefnyddwyr gwasanaeth, gan gynnwys y rheiny sydd ag anghenion cymhleth ac ymddygiadau heriol.
Tŷ Cymorth 	Cwblhawyd cymeradwyaethau gweinidogol ac achosion busnes ar gyfer y Tŷ Cymorth (Tŷ Argyfwng). Sicrhawyd cyllid o £1.4m gan y Gronfa Gyfalaf Gofal Canolig ac mae'r rhaglen wedi symud i'r camau gwahoddiad i dendro a gwerthuso tendrau. Y nod yw bod yn gwbl weithredol gan ddarparu i'r trydydd sector erbyn 2021.
Cysylltu Bywydau 	Datblygwyd model gweithredol ar gyfer Cysylltu Bywydau (Host Families gynt), a chasglwyd data sylfaenol a rhoi'r gweithrediad dan brawf ym Mwrdeistref Casnewydd. Mae'r model gwasanaeth hwn yn canolbwyntio ar ddarparu cefnogaeth well i atal argyfyngau rhag gwaethygu a rhoi opsiynau eraill addas yn hytrach na mynd i'r ysbyty fel claf mewnol i bobl sydd eisoes yn profi argyfwng iechyd meddwl. Mae gwerthusiad o leoliadau gwaith y peilot cychwynnol wedi'u cynnal gyda chanlyniadau cadarnhaol, effaith uchel i ddefnyddwyr gwasanaeth. Cynyddodd y nifer o aelwydydd gofalu i 7 teulu. Mae tîm y prosiect yn dylunio cefnogaeth a hyfforddiant i ofalwyr i hwyluso i gyflwyno'r rhaglen yn llawn yn 2020/2021.

Amcan 7: Gwella profiadau defnyddwyr gwasanaeth a staff sy'n lesbiaid, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol (LGBT).



Mae gan y Bwrdd Iechyd Grŵp Cyngori staff Lesbiaid, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol rhithiol hirsefydledig. Rydym yn parhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned LGBT ehangach.

Drwy gydol y cyfnod adrodd, mae rhagor o waith wedi'i wneud i gynyddu ymwybyddiaeth o anghenion pobl drawsrywiol.

Rydym yn parhau i gynnal aelodaeth o raglen Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall Yn Pride Cymru 2019, roeddem yn falch o orymdeithio ochr yn ochr â chydweithwyr ar draws GIG Cymru i ddathlu cydraddoldeb, amrywiaeth a diwylliant LGBT+ i hyrwyddo'r Bwrdd Iechyd fel cyflogwr cyfle cyfartal. Denodd y digwyddiad blyneddol hwn dros 50,000 o bobl a ddaeth i'r brifddinas i ddangos eu cefnogaeth.



Amcan Cydraddoldeb 8:

Rhywedd a Thâl- Datblygu dealltwriaeth well o'r rhesymau dros unrhyw wahaniaeth mewn tâl a chymryd y camau gweithredu hanfodol i fynd i'r afael â hyn.

Drwy gydol y cyfnod adrodd, rydym wedi parhau i annog staff i gwblhau eu data yn ymwneud â chydraddoldeb ar eu Cofnod Staff Electronig (ESR) fel rhan annatod o hyfforddiant ESR, drwy weithgareddau hyrwyddol penodol a negeseuon cyfathrebu rheolaidd ar y carwsél ESR. Er bod y Bwrdd Iechyd wedi trosglwyddo i slipiau cyflog ar-lein i'r holl staff sydd wedi arwain at fwy o staff yn mewngofnodi i'w cyfrif ESR ar-lein, mae bylchau sylweddol yn parhau i fod yn ein gwybodaeth sydd, o bersbectif trawsadrannol, yn parhau i atal dealltwriaeth fanylach mewn perthynas â rhywedd a nodweddion gwarchodedig eraill, megis ethnigrwydd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol a chrefydd/cred.

Mae'n parhau i fod yn amlwg o'r data cyflogaeth bod dynion yn parhau i fod heb gynrychiolaeth ddigonol yn y Bwrdd Iechyd (fel sy'n berthnasol ar draws GIG Cymru), ond cânt gynrychiolaeth ormodol yn achos rhai swyddi, megis galwedigaethau crefft ac ystadau a chânt gynrychiolaeth anghymesur yn y swyddi rheoli bandiau uwch.

Mae proffil oedran a rhywedd y gweithlu ynghyd ag adborth anecdotaidd gan staff yn parhau i adnabod bod y menopos yn broblem sylweddol. Yn ystod y cyfnod adrodd, gwnaethpwyd gwaith cyfredol i weithredu'r polisi Menopos Cymru Gyfan ac argaeledd sesiynau ymwybyddiaeth a chymorth i staff gan nyrs menopos arbenigol y Byrddau Iechyd, sydd hefyd yn cynnal clinig penodol i staff.

Yn gyfrannol, mae mwy o ferched na dynion yn gweithio rhan amser, mae ein gwybodaeth anecdotaidd yn adnabod gofal plant a chyfrifoldebau gofalu eraill yn un o'r prif resymau dros hyn.

Rydym wedi datblygu strategaeth gweithio'n hyblyg i gynorthwyo staff gyda mwy o opsiynau hyblyg ar gyfer gweithio. Mae ein gwaith yn cyflwyno hyfforddiant Grŵp 1 'Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol' yn parhau i ddangos nifer sylweddol o ddatgeliadau hanesyddol yn bennaf sydd hefyd yn debygol o gael effaith negyddol ar ddilyniant merched yn y gweithlu. Rydym wedi parhau i godi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth o weithrediad effeithiol polisi ein Bwrdd Iechyd: "Cefnogi Staff sy'n Ddioddefwyr Trais Domestig". Daeth hyn yn fwyfwy pwysig wrth i'r dystiolaeth newydd o gam-drin domestig cynyddol a ddaeth i'r amlwg yn ystod y 'Cyfnod Clo' a oedd yn ofynnol fel rhan o reoli'r Pandemig.

Casgliad

Mae effaith heb ei thebyg Pandemig Covid-19 wedi taflu goleuni ar rai o'r anghydraddoldebau dwfn sy'n bodoli yn y gymdeithas ehangach. Mae wedi dod i'r amlwg bod rhai pobl yn y cymunedau a wasanaethwn wedi cael eu heffeithio'n fwy negyddol nag eraill. Rydym wedi gwneud ein gorau i ddysgu gwersi pwysig o effaith y Pandemig ac wedi croesawu ffyrdd newydd o weithio ac arferion arloesol i'n cefnogi ni i feddwl a gweithio'n wahanol i leihau anghydraddoldebau.

Mae adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) 2020 'Sut mae coronafeirws wedi effeithio ar gydraddoldeb a hawliau dynol' yn crynhoi'r dystiolaeth newydd. Mae hyn wedi bod yn gymorth i roi eglurdeb ynghylch effeithiau'r pandemig o bersbectif cydraddoldeb a hawliau dynol a'r risgiau i'r rhain yn y tymor hirach. Byddwn yn cymryd ystyriaeth o hyn a thystiolaeth arall wrth iddi ddod ar gael i ddiweddarau ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb.

Diolch

Fel arfer, diolch i'r gymuned a wasanaethwn a'n partneriaid a rhanddeiliaid eraill am eu cefnogaeth a'u hymgysylltiad parhaus.

Diolch i'n staff am eu hymdrechion parhaus i lynu wrth werthoedd y Bwrdd Iechyd bob dydd ac am eu hymroddiad, sgiliau a charedigrwydd yn ystod cyfnod heb ei debyg.



Nathan Wyburn (arlunydd - www.nathanwyburn.co.uk)

Cysylltwch â ni

Os hoffech wneud unrhyw sylw neu drafod unrhyw agwedd ar yr adroddiad Cydraddoldeb blynyddol, cysylltwch â: Jill Evans

Uwch Ymarferydd Datblygiad Cyfundrefnol a Phennaeth Cydraddoldeb Ysbyty Llanfrechfa Grange, Cwmbrân, Torfaen, E-bost jill.evans2@wales.nhs.uk

Ffôn 01633 623801. Minicom 01633 238957.